

# Amddiffyniad Cyfartal i Blant: Dileu'r amddiffyniad o gosb resymol mewn achosion o ymosod a churo



Children in Wales  
Plant yng Nghymru

Paratowyd y papur briffio hwn gan Blant yng Nghymru i roi trosolwg o'r Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

## Cefndir

Ar hyn o bryd, mae adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yn darparu amddiffyniad o 'gosb resymol' mewn achosion o ymosod cyffredin neu guro yn erbyn plant, sydd yn caniatáu rhieni i ddefnyddio cosb gorfforol yng Nghymru a Lloegr.

Dim ond ar gyfer rhiant, neu berson sy'n gweithredu yn lle rhiant mae'r amddiffyniad o gosb resymol ar gael. Cafodd cosbi plant yn gorfforol mewn ysgolion a lleoliadau eraill sydd yn ymwneud ag addysg ei wahardd gan adran 47 o Ddeddf Addysg (Rhif. 2) 1986 (wedi ei ddi-ddymu bellach), a nawr mae wedi ei osod allan yn adran 548 o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r amddiffyniad cyfreithiol hwn ar gael mewn perthynas â'r drosedd o ymosodiad cyffredin neu guro, neu gamwedd tresmasu, yn erbyn plentyn yn unig.

Yn dilyn ymgyrchoedd dros nifer o flynyddoedd, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol i roi'r un diogelwch rhag ymosod i blant a phobl.

## Sefyllfa Plant yng Nghymru

Mae Plant yng Nghymru wedi bod yn ymgyrchu ers peth amser i roi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol. Mae ymchwil o ar draws y byd yn dangos yn glir fod cosbi corfforol yn aneffeithiol wrth reoli ymddygiad plant, ei fod yn niweidiol i ddatblygiad plentyn, yn sarhau eu hurddas a'u hawliau dynol, ac nid yw'n briodol yn y byd modern. Heddiw, rydym yn meddu ar ymchwil gwyddonol diweddar ynghylch datblygiad amenedigol a datblygiad cynnar plenty nad oedd ar gael i rieni'r cenedlaethau cynt sydd yn atgyfnerthu'r farn hon. Mae ymarfer rhianta yn dibynnu ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Felly, roeddem yn falch o weld fod deddfwriaeth arfaethedig, fyddai'n cael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol mewn achosion o ymosod a churo plant, wedi ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y deddfwriaeth hon yn cau'r bwch sydd yn rhoi llai o amddiffyniad i blant o fewn y gyfraith, o'i gymharu ag oedolion.

Bydd y deddfwriaeth yn gwella canlyniadau da i blant, ac yn dylanwadu ar farn y cyhoedd gan ei fod yn adnodd da i annog technegau rhianta cadarnhaol megis canmol a gwobrwyo, bod yn gyson, a chyflwyno ffiniau yn gynnar yn hytrach na chosbi corfforol.

## Deddfwriaeth

Cafodd y Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ei gyflwyno i'r Cynulliad ar 25 Mawrth 2019.

Nod y Bil yw helpu i ddiogelu hawliau plant trwy wahardd rhieni, a'r rheiny sydd in loco parentis (yn gweithredu fel rhiant) rhag cosbi eu plant yn gorfforol. Mae gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn gyson gydag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Effaith fwriadedig y Bil, ynghyd â'r ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a'r gefnogaeth i rieni, yw gwneud gostyngiad pellach yn y defnydd a'r goddefiad o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.

Ar 2 Awst, bu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn adrodd ar dystiolaeth a dderbyniwyd yng Nghyfnod 1 y broses graffu. Dangosodd y Pwyllgor gefnogaeth at y deddfwriaeth, gan ddweud ei bod yn debygol o helpu i ddiogelu plant rhag cosbi corfforol a niwed, gan ddod ag eglurder i'r gyfraith. Atgyfnerthwyd y pwysigrwydd o ymgyrch gwybodaeth a chefnogaeth i rieni.

## Rhianta cadarnhaol

Bydd cau'r bwch o fewn y gyfraith sydd yn caniatáu cosbi plant yn gorfforol yn annog rhieni i ddefnyddio technegau rhianta cadarnhaol yn hytrach na chosbi corfforol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu menter o'r enw, Magu plant. Rhowch amser iddo, sydd yn helpu rhieni i annog ymddygiad cadarnhaol, gwella hyder y plentyn a chefnogi eu datblygiad gydag adnoddau a gwybodaeth i rieni. Gallwch ganfod mwy yn <https://llyw.cymru/magu-plant-rhowch-amser-iddo>

Mae rhaglenni rhianta eraill megis ymgyrch Take 5 yr NSPCC, hefyd yn cynnig camau syml ar gyfer rhianta cadarnhaol: <https://www.nspcc.org.uk/preventing-abuse/keeping-children-safe/take-five/>

## Rhagor o wybodaeth

Gallwch ddilyn datblygiad Bil Plant (Cymru) drwy broses graffu'r Cynulliad Cenedlaethol yn <http://bit.ly/2xIh0SD>.

Gallwch ganfod crynodeb o'r Bil ar flog Ymchwil y Senedd yn <http://bit.ly/30r1bvS>.

Mae fideo eglurhaol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, yn <http://bit.ly/2kbV2nW>.